



Cofnodion y Cyngor

Cyfarfod 184

Dyddiad y cyfarfod: Gwener 16 Hydref 2020

Lleoliad: Drwy Sŵm

Presennol:
(Drwy Sŵm) Phil George (PG) Cadeirydd, Andrew Miller (AM), Gwennan Mair (GM), Devinda De Silva (DDS), Mike Griffiths (MG), Kate Eden (KE), Alison Mears Esswood (AME), Sarah Younan (SY), Dafydd Rhys (DRh), Marian Wyn Jones (MWJ), Iwan Bala (IB), Lhosa Daly (LD), Andy Eagle (AE) a Victoria Provis (VP)

Yno:
(Drwy Sŵm) Nick Capaldi (NC), Diane Hebb (DH), Siân Tomos (ST), Rebecca Nelson (RN), Richard Nicholls (RAN), Siôn Brynach (SB), Andrew Richards (AR), Carys Wynne Morgan (CWM), Angela Thomas (AT), Eluned Haf (EH) a Katy Brown (cofnodion)

Ymddiheuriadau: Tudur Hallam (TH)

Arsylwi:
(Drwy Sŵm) Gary Williams (GW) Llywodraeth Cymru

Cyfieithydd Sioned Jones (SJ)

Statws y papur: I'w ryddhau i'r cyhoedd

Eitem	Gweithredu
1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd PG yr aelodau i gyfarfod Cyngor Celfyddydau Cymru a gynhelir drwy Sŵm. Croesawodd PG Richard Nicholls (RAN), y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a benodwyd yn ddiweddar i'w gyfarfod cyntaf. Ymglyfwnodd RAN gan nodi ei fod yn edrych ymlaen yn arw at weithio yma. Nodwyd yr ymddiheuriadau.	
2. Datganiadau o Fuddiant Gofynnodd aelodau o'r Cyngor i'r Datganiadau o Fuddiant gael eu cofnodi (maent yn atodiad i'r cofnodion).	

	Gofynnodd DDS am ychwanegu'r canlynol at ei ddatganiadau: • Aelod o Fwrdd Celfyddydau Anabledd Cymru	
3.	Cofnodion y cyfarfod ar 2 Medi 2020 Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.	
4.	Materion sy'n codi Roedd yr holl faterion a oedd yn weddill wedi'u cyflawni. <u>Recriwtio'r Cyngor</u> Nodwyd bod y broses ymgeisio 4 wythnos wedi'i hagor. Trafodwyd gyda Llywodraeth Cymru faint o aelodau i'w recriwtio. Cytunwyd i recriwtio 6 aelod newydd (gyda 2 siaradwr Cymraeg yn eu plith). Bydd SB yn cyfathrebu am y broses er mwyn cyrraedd trawstoriad ehangach o ymgeiswyr. Diolchwyd i GM ac AM am recordio fideo recriwtio. Diolchodd SB iddynt hefyd. Bydd y fideos ar y cyfryngau cymdeithasol erbyn y penwythnos. Rhannodd PG ei erthygl yn y Western Mail y diwrnod cynt am recriwtio i'r Cyngor. Gofynnodd SY a oedd modd talu unigolion llawrydd fel aelodau o'r Cyngor i'w digolledu am eu hamser ac am golli incwm. Roedd PG o blaid y syniad ond nad oedd yn bosibl dan gyfraith yr elusennau. Roedd o hyd yn fater i Lywodraeth Cymru wrth gwrs ac efallai y byddai cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Elusennau yn y dyfodol. <u>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</u> Nodwyd y bydd cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. <u>Pwyllgorau'r Cyngor</u> Nodwyd bod yr holl Grwpiau Monitro bellach yn bwyllgorau yn sgil penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf.	DH
5.1	Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 30 Medi 2020 Soniodd KE am y cyfarfod. <u>Adroddiadau archwilio mewnol</u> Roedd yr archwiliad mewnol gan Deloitte ar Gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi cael Sicrwydd Sylweddol.	

Roedd Deloitte hefyd wedi archwilio ein rheolaeth o'r Cronfeydd Gwytnwch Celfyddydol i Unigolion a Sefydliadau. Credai'r Pwyllgor fod y gwaith yn bwysig iawn o ystyried pa mor gyflym yr oedd raid inni ddosbarthu symiau mawr o arian. Roedd KE yn falch o adrodd bod yr adolygiad wedi arwain at radd Sicrwydd Sylweddol ac wedi llongyfarch y staff.

Cofrestr Risg

Mae'r Pwyllgor yn adolygu Sicrwydd Corfforaethol a Risg ym mhob cyfarfod. Nodwyd y risg newydd o beidio â chyflawni yn ôl ein hymateb i *Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys ac Ni Chawn ein Dileu*. Nodwyd penderfyniad y Cyngor i ddatblygu'r posibiladau ond nodwyd hefyd y risg o beidio â chyflawni yn ôl ein hymrwymadau.

Twyll

Nodwyd bod mesurau gwrth-dwyll newydd wedi'u rhoi ar waith o ran rheoli Cronfa Wytnwch Gelfyddydol. Rhoddir y rhain ar waith gyda'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol.

Cronfa Adfer Ddiwylliannol

Nodwyd y bydd adolygiad archwilio mewnol o'n rheolaeth o'r gronfa.

Adolygiad o Femoranda o Gyd-ddealltwriaeth

Roedd y Pwyllgor wedi nodi bod gennym Femoranda o Gyd-ddealltwriaeth gyda nifer o bartneriaid. Byddai'r Pwyllgor yn edrych ar sut y caiff y rhain eu rheoli a'u monitro yn ei gyfarfod nesaf.

Nodwyd yr adroddiad.

5.2 Cyfarfod Grŵp Monitro'r Gymraeg ar 28 Medi 2020

Soniodd MWJ am y cyfarfod.

Trafodwyd drafft terfynol ymateb y Cyngor i Adroddiad Mapio Gweithgarwch Celfyddydol yn y Gymraeg. Diolchwyd i ST a'r tîm am eu holl waith.

Aelodau Cymraeg o fyrddau'r Portffolio

Gofynnodd AM am egluro asesiad y Pwyllgor mai "methu" oedd byrddau'r Portffolio o ran cynnwys digon o siaradwyr Cymraeg. Ymddangosai fod 38% o holl aelodaeth y byrddau'n siaradwyr Cymraeg.

	Nododd NC fod ystadegau cyffredinol am y byrddau'n cuddio anghysondebau mawr ar draws y Portffolio. Roedd gan rai ddigonedd o arbenigedd Cymraeg, ond roedd llawer heb hynny. Gofynnodd AM a allai'r Pwyllgor ymchwilio i faint o fyrddau yn y Portffolio oedd heb siaradwyr Cymraeg. Byddai hynny'n ffordd i'r Cyngor dargedu camau'n fwy effeithiol. Nodwyd yr adroddiad.	ST
5.3	Cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth ar 9 Medi 2020 Soniodd MG am y cyfarfod. Adolygwyd yn drylwyr Adroddiad Gwybodaeth Reoli'r Adnoddau Dynol. Roedd y Pwyllgor am holi ynghylch y data am absenoldeb a salwch y staff, o ystyried y pwysau presennol arnynt. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall yn well straen ac iechyd meddwl. Briffiwyd y Pwyllgor ar y camau i liniaru effeithiau gwael y pandemig ar iechyd a lles y staff. Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd Rhaglen Cymorth i Weithwyr y Cyngor. Cadarnhaodd MG y byddai'r rhain yn faterion y bydd y Pwyllgor yn parhau i'w hadolygu'n drylwyr. Trafodwyd hefyd bolisi gweithio gartref a chynllunio olyniaeth. Roedd y Pwyllgor yn parhau i gwrdd yn anffurfiol â staff o bob rhan o'r sefydliad. Nodwyd yr adroddiad.	
5.4	Cyfarfod y Pwyllgor Cyfalaf ar 2 Hydref 2020 Soniodd AE am y cyfarfod. <u>Cwmni'r Frân Wen</u> Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan y Frân Wen ar ddatblygu ei brosiect cyfalaf mawr. Roedd y cyflwyniad wedi llywio argymhelliad ariannu'r Pwyllgor i'r Cyngor. Cytunodd y Cyngor i gefnogi'r cais am £1,800,000 (neu 45.94% o'r gost gymwys, pa un bynnag yw'r lleiaf) yn amodol ar	

	gytundeb cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r Frân Wen. Bydd hyn yn cynnwys pwyntiau ychwanegol, a restrir yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, fel Rhagamodau. <u>Theatr Clwyd</u> Nododd AE fod Llywodraeth Cymru wrthi'n rhyddhau £3 miliwn o gyfalaf ar gyfer cam nesaf datblygu Theatr Clwyd. <u>Oriel Gelf Gyfoes i Gymru</u> Trafodir y diweddaraf am brosiect Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Oriel yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.	ST
6.1	Adroddiad y Cadeirydd Rhoes y Cadeirydd wybod am ei ddigwyddiadau a'i gyfarfodydd diweddar. <u>Ymateb y Gweinidog i'n cyfrifon statudol, 2019/20</u> Roedd PG yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi canmol ein hadroddiadau blynyddol a'n cyflawniadau. Roedd wedi rhannu llythyr y Dirprwy Weinidog â'r Cyngor. <u>Cyfrifoldebau Gweinidogol</u> Nododd PG y bu newid mewn swyddogaethau gweinidogol ond bod cyfrifoldeb arweiniol y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Diwylliant yn parhau. Bydd y Prif Weinidog bellach yn cymryd cyfrifoldeb dros faterion rhyngwladol yn uniongyrchol. Mae Eluned Morgan AS wedi'i phenodi'n Weinidog dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. <u>Cyfarfod ag Artistiaid Duon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig</u> Soniodd PG am gyfarfod cadarnhaol a defnyddiol a oedd yn trafod <i>Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys</i>, ymrwymadau'r Cyngor a chreu swydd newydd, yr Asiant er Newid. <u>Hyrwyddo Tirwedd Greadigol</u> Roedd PG wedi annerch wrth lansio ein Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Diolchodd PG i'r staff am eu cymorth gyda'r digwyddiad llwyddiannus.	

	<u>Dathlu creadigrwydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr</u> Aeth PG i noson i ddathlu a hyrwyddo creadigrwydd cymunedau nad oedd mor amlwg ag y dylent fod. <u>Beth Nesaf?</u> Aeth PG ac NC i sesiwn Beth Nesaf? Yno roedd gofyn i'r Cyngor ymateb i nifer o gwestiynau. Ym marn PG roedd yn sesiwn dda. Cafodd ef ac NC eu canmol am fod mor agored.	
6.2	Hyfforddi a datblygu Roedd aelodau wedi cytuno i nifer o fentrau hyfforddi a datblygu. Roedd y trefniadau ar y gweill i wneud yr hyfforddiant canlynol: • Dosbarthiadau Cymraeg • Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus • Deall hiliaeth, tuedd anymwybodol ac anghydraddoldeb strwythurol	
7.1	Adroddiad y Prif Weithredwr Soniodd am ei gyfarfodydd a'i ddigwyddiadau diweddar gan fanylu am y canlynol. <u>Cyfarfod Cyngorau Celfyddydau Prydain ac Iwerddon</u> Cyfarfu â Phrif Weithredwyr y Cyngorau Celfyddydau eraill. Roedd yn gyfle da i rannu gwybodaeth am ymatebion i'r pandemig, goblygiadau brexit a rhagolygon ariannu'r celfyddydau gan y Llywodraeth. Roedd trafodaeth hefyd am gydlynw gwasanaethau ac ariannu rhyngwladol ar ôl brexit. <u>Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a Chymraeg y Senedd</u> Cyflwynodd wybodaeth i'r pwyllgor am effaith y pandemig fel rhan o ddigwyddiad bord gron. Nodwyd yr adroddiad.	
7.2	Diweddariad am y pandemig Soniodd NC am y datblygiadau diweddar. Nodwyd yr adroddiad.	
7.3	Diweddariad am frexit Soniodd NC am y datblygiadau diweddar. Nodwyd yr adroddiad.	

8. Argymhellion ariannu

8.1 Cronfa Adfer Ddiwylliannol

Oherwydd y Datganiadau o Fuddiant a nodwyd yn gynharach, roedd yn rhaid i rai aelodau ymneilltuo o'r cyfarfod pan drafodid unrhyw sefydliad perthnasol.

Cefndir a chyd-destun

Esboniodd NC gefndir Cronfa Adfer Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru a chyfraniad y Cyngor at reoli ac asesu ceisiadau i feysydd penodol o'r gronfa. Dyma'r darn o waith mwyaf i'r Cyngor ei wneud erioed. Diolchodd i'r staff am eu gwaith caled ac i'r Llywodraeth am ei chefnogaeth.

Roedd y staff wedi asesu nifer mawr iawn o geisiadau mewn cyfnod byr iawn. Bu'n ymdrech aruthrol gan y staff i baratoi'r argymhellion i'r Cyngor.

Arian Llywodraeth Cymru oedd i'r gronfa ac asiantau oeddem ni ar ran y Llywodraeth ond roedd cydweithio'n agos â'r Llywodraeth yn rhan hanfodol. Diolchodd NC i Lywodraeth Cymru eto am ei chefnogaeth.

Ond y Cyngor oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau.

O'r cychwyn cyntaf, roedd y Cyngor wedi cydweithio â'r Llywodraeth ar y broses a'r meini prawf. Nod y gronfa oedd darparu cymorth brys i sefydliadau oedd mewn perygl ariannol difrifol ac nid i ddatblygu gwaith y tu hwnt i Fawrth 2021.

Roedd manylion yr holl grantiau wedi'u rhannu â'r Llywodraeth. Roedd yn ffordd o gael gwybod a oedd ceisiadau'n cyrraedd yr elfen gywir o'r gronfa. Mae cynnal gwaith yn y dyfodol yn bwysig o hyd ond arian y Loteri Genedlaethol fydd yn gyfrifol am hynny.

Roedd llawer o sefydliadau'n wynebu anawsterau ac roeddynt yn aros yn bryderus i glywed am benderfyniadau'r Cyngor. Roedd sefydliadau sy'n cael cyfran sylweddol o'u hincwm o werthu tocynnau – megis Canolfan Mileniwm Cymru, Chapter, Galeri ac ati – wedi cael eu taro'n arbennig o wael oherwydd darfod gwaith cyhoeddus yn ddirybudd. Roedd yr effaith o golli incwm yn sylweddol ar draws y sector hefyd yn drwm, gan gynnwys lleoliadau gan yr awdurdodau lleol (megis Theatr Clwyd, Neuadd Dewi Sant a Theatrau Rhondda Cynon Taf) a

lleoliadau gan y prifysgolion (megis Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth a Phontio.)

Yr amcan oedd rhoi cymorth cyn gynted â phosibl. Ond roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr fod yn gymwys i ymgeisio a bod y ceisiadau'n bodloni'r meini prawf.

Newidiadau ar ôl llunio'r papurau i'r Cyngor

Esboniodd AR a CWM y broses asesu a'r meini prawf.

Ychwanegodd y wybodaeth ganlynol a ddaeth i'r amlwg ar ôl llunio'r papurau:

Menter Caerdydd

Tynnwyd yn ôl ei chais am £90,000 (argymhelliad o £21,750) ar ôl darganfod ei bod hefyd wedi ymgeisio i gronfa Llywodraeth Cymru. Cytunwyd mai Llywodraeth Cymru a ystyriai'r cais.

Theatr Newydd Caerdydd

Nid oedd elfen o'i chostau yn y gyllideb yn gymwys felly lleihaodd ei chais o £2,154,666 i £1,884,846 a dyma oedd yr argymhelliad i'r Cyngor.

Yr Hyst

Argymhellid gwrthod y cais am nad oedd yn bodloni ein meini prawf. Ond oherwydd ei bwysigrwydd fel lleoliad ar Stryd Fawr Abertawe, roedd y Llywodraeth wedi cytuno i'w ystyried o ran ei chronfa hi.

Canolfan Mileniwm Cymru

Cwestiynodd y Llywodraeth gynnwys ffioedd ymgynghorwyr am waith cyfalaf Cam 2 RIBA i ddatblygu'r blaen tŷ o ran y coronafeirws a'r Mannau i Wneuthurwyr newydd yn yr adeilad. Nodwyd bod rhywfaint o risg ymhlyg wrth waith RIBA am nad oedd sicrwydd y caiff y gwaith ei barhau y tu hwnt i'r cyfnod datblygu. Nododd GW ei awydd i dynnu sylw'r Cyngor at y trafodaethau.

Roedd staff y Cyngor wedi ystyried y risg yn benodol. Ond roedd angen newidiadau sylweddol iawn i'r Ganolfan i drawsnewid ei model busnes i fod yn gynaliadwy a diogel o ran y pandemig. Roedd maint yr adeilad yn gofyn am fanylder

RIBA. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau, penderfynwyd argymhell ariannu'r cais.

Yr argymhellion

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith caled. Craffwyd ar y prosesau asesu a daethpwyd i'r casglid eu bod yn gadarn. Nodwyd bod yr adroddiad archwilio mewnol (y cyfeiriwyd ato'n gynharach) am ein rheolaeth o'n cronfa argyfwng flaenorol (Cronfa Wytwnch Gelfyddydol) wedi cael sgôr o Sicrwydd Sylweddol.

Ceisiodd y Cyngor sicrwydd bod yr arian a gynigid yn gyson â dibenion cyffredinol y Gronfa Adfer Ddiwylliannol a'i meini prawf. Roeddent hefyd am gadarnhau mewn rhai achosion bod y defnydd o gyllid yn ymwneud yn benodol â'r argyfwng.

Nodwyd yr ystod o ran gwerth yr argymhellion. Dylai'r Cyngor egluro'n gyhoeddus bwysigrwydd yr arian i sefydliadau'n gyffredinol, llwyddiant y grantiau a'r cyfraniad at ddiogelu swyddi.

Canolfan Mileniwm Cymru oedd yr argymhelliad mwyaf o ran gwerth. Byddai'n bwysig y gallai'r staff esbonio'n glir y camau torri costau yr oedd y sefydliad wedi'u cymryd, neu y byddai'n eu cymryd, ar ôl cael y grant. Roedd y materion wedi'u hystyried yn rhan o'r broses asesu ar sail gwybodaeth a gafwyd gan y Ganolfan ar ddechrau'r pandemig. Ychwanegir amodau grant i sicrhau hyn hefyd.

Cymeradwywyd yr argymhellion ariannu.

Nodwyd bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn llai na'r £27.5 miliwn a glustnodwyd yn wreiddiol. Pwysleisiwyd mai arian y Llywodraeth oedd dan sylw ac y byddai'r Llywodraeth yn defnyddio'r gweddill i ariannu ceisiadau i'w helfen hi o'r gronfa. Mae hyn yn sicrhau y byddai rhagor o wyliau, digwyddiadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd yn debygol o gael cymorth.

8.2

Camau Creadigol

Cyflwynodd DH y papur a oedd yn cynnwys argymhelliad ariannu ar gyfer rhoi grant i Gyngor Hil Cymru o £165,970 o arian Camau Creadigol.

	Cymeradwywyd yr argymhelliad, gan gynnwys amodau grant ychwanegol sy'n ymwneud â maint a chyrhaeddiad gwaith y prosiect.	
9.	Ailosod y Llwyfan – dogfen drafod sy'n ymateb i'r coronafeirws Cyflwynodd NC y ddogfen i ymateb i sylwadau gan sefydliadau ac unigolion am yr hyn y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud o ran ymateb i'r pandemig. Pwysleisiodd nad strategaeth oedd yma. Byddai strategaeth yn dod yn y misoedd nesaf wrth i'r Cyngor lunio ei Gynllun Gweithredol, 2021/22. Yn hytrach, roedd yn gyfle i nodi'r hyn yr oeddem yn ei glywed gan y sector. Felly bydd NC yn cyhoeddi fersiwn o'r ddogfen er gwybodaeth. Croesawyd y ddogfen a diolchwyd i NC.	
10.	Adroddiad Mapio'r Gymraeg – cynllun gweithredu Cyflwynodd ST y papur a oedd yn nodi ymateb arfaethedig y Cyngor i adroddiad Mapio'r Gymraeg. Croesawodd MWJ yr ymrwymïadau mwy penodol i gamau datblygu ac i ariannu targedau gyda'r nod o gynyddu lefelau buddsoddi mewn gwaith Cymraeg. Nododd MWJ hefyd y gwaith datblygu a gynigiwyd gyda gwahanol bartneriaid arbenigol ond lleisiodd ei phryder am allu presennol y staff i reoli a chyflawni'r rhaglen waith uchelgeisiol. Byddai angen mynd i'r afael â'r agwedd yna fel rhan o'n gwaith o bennu cyllidebau. Cymeradwywyd yr argymhellion.	
11.	Adroddiad Blynyddol y Gymraeg, 2019/20 Cyflwynodd MWJ yr adroddiad. Llongyfarchwyd y Pwyllgor am ei waith caled wrth lunio Adroddiad Blynyddol manwl a deniadol. Nodwyd yr adroddiad.	
12.	Arian y Loteri Genedlaethol ac arian Strategol – diwygiadau i'r gyllideb	

	Cyflwynodd RN bapur a amlinellai'r addasiadau a argymhellwyd i gyllidebau Strategol a'r Loteri Genedlaethol yn y flwyddyn gyfredol, 2020/21. Oherwydd y sefyllfa bresennol a'r effaith barhaus ar sector celfyddydol, rhaid inni ymateb yn gyflym i amgylchiadau cyfnewidiol. Mae diwallu anghenion brys yn bwysig. Cytunwyd ei bod yn bwysig bod arian yn cael ei gadw'n ystwyth i ymateb i'r galw. Penderfynodd y Cyngor: 1. Cymeradwyo'r diwygiadau i gyllideb y Loteri Genedlaethol 2. Cymeradwyo'r trosglwyddiad yng nghyllideb y cronfeydd strategol <u>Tendr Bancio</u> Nododd RN ei bod yn adeg aildendro ar gyfer gwasanaethau banc ond oherwydd y sefyllfa argymhellodd ymestyn y trefniadau presennol am flwyddyn arall. Cytunwyd â'r argymhelliad.	
13. 13.1	Diweddariadau er gwybodaeth Ehangu Ymgysylltu Soniodd DH am y prosiect a reolid mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru i gefnogi tri phrosiect: • Undeb Celfyddydol Gwrth-Hiliol Cymru – sy'n canolbwyntio ar gymunedau lliw • Richard Turner a'i Gydweithwyr – sy'n canolbwyntio ar gymunedau B/byddar ac anabl • Cyd:nabyddiaeth – sy'n canolbwyntio ar Benderyn sy'n gymuned led-wledig Nodwyd yr adroddiad.	
13.2	Cyfoeth Naturiol Cymru – memorandwm o gyd-ddealltwriaeth Cyflwynodd ST yr adroddiad a amlinellai'r bartneriaeth gyffrous at y dyfodol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Nodwyd yr adroddiad.	
13.3	Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a Chofrestr Risg Nodwyd bod y ddau bapur wedi'u trafod yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg diwethaf.	

	<u>System Rheoli Grantiau</u> Canolbwyntid ar ddatblygu'r System Rheoli Grantiau newydd. Roedd yn brosiect uchel ei risg oherwydd ei fod yn hanfodol i fusnes. Rhaid ei reoli'n gadarn. Roedd cyfarfodydd diweddaru dyddiol yn digwydd gan fod y dyddiad i fynd yn fyw bellach yn prysur agosáu.	
13.4	Cynllun Gweithredol: adroddiad am y cynnydd yn chwarter 2 Nodwyd yr adroddiad.	
14.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Gwener 4 Rhagfyr 2020 – Sŵm	

Cyfarfod y Cyngor

Gwener 16 Hydref 2020

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem		Gweithredu
4.	Cael cyflwyniad am Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor	DH
5.2	Pwyllgor y Gymraeg i ymchwilio ymhellach i faint o aelodau Cymraeg sydd ar fyrddau'r Portffolio	ST
5.4	Darparu diweddariad yn y cyfarfod nesaf am ddatblygu prosiect Llywodraeth Cymru i greu Oriel Gelf Gyfoes newydd i Gymru	ST